






B









**Barddas
Bach
y 'Dolig**

2019



Enillydd Categori Barddoniaeth Llyfr y Fflwyddyn 2019

CYFROLAU BARDIDAS AR GAEL YN Y SIOPAU!



Mi fydd cyfrol newydd o farddoniaeth gan y Prif Lenor, Eurig Salisbury allan cyn hir - gwyliwch y gofod!

Cyhoeddiadau Barddas www.barddas.cymru | www.gwales.com



Newyddion ffug y 'Dolig

Fel y gŵyr pob rhiant cyfrwys a Santa hyd y tir, mae angen dŵs o gelwydd cyn gallu llyncu'r gwir.

Bu raid i'r doethion clyfar a Herod o fewn clyw ddweud celwydd bach hanfodol i gadw'r gwir yn fyw.

A Joseff — er ei fod o 'di gweld drwy'r angel yn glir, mor daer roedd o am gredu bod hwnnw'n dweud y gwir.

Y seren ddisglair eisoes erbyn cyrraedd uwch y crud oedd farw ers milenia, yn gelwydd golau i gyd...

A'r byd i gyd yn dywyll a'r gaea'n oer a hir rhyw sgeintiad bach o gelwydd fel eira dros y gwir

a wneith am nawr i'n twyllo rhag cael ein llorio'n llwyr gan rym yr holl wirionedd a'n trawodd yn rhy hwyr.

A thithau'r babi bychan, a thithau'r seren glir, mi goelia'i eich holl gelwydd cyhyd â'i fod o'n wir.

Llŷr Gwyn Lewis



Ba Seicosemanteiddiwch!

Ychydig yn ôl, cefais alwad ffôn gan yr Athro V. Sagam, o Valley City, Illinois. Mab yw'r Athro V. Sagam i'r **Athro Neil Sagam**, y seico-semantydd byd-enwog sydd wedi gwneud cymaint o waith arloesol ym maes barddoniaeth. Ymysg o ddeutu cant o lyfrau pwysig, mae tair cyfrol y dylai'r ymchwilydd anghyfarwydd gael gafael arnynt rhag blaen: *Y Bardd Cymraeg a Chwedlau Eraill* (Gwasg y Felin, 1959); *I'm Sick With Bardic Boredom* (The M Press, 1963) a'r detholiad newydd o ysgrifau'r Athro o dan olygyddiaeth ei fab, *The Mouse In The House In My Head* (Valley City Press, 2019) sy'n cynnwys y traethawd 'Awdl Llanrwst: Wiwer yng Nghystadleuaeth y Teirw Duon Cymreig?'

Ond cenadwri'r alwad ffôn oedd bod gan yr Athro neges fach i ddarllenwyr *Barddas*. Brysiais draw ar fy union i'r Cartre dinad-man lle mae'r Athro yn byw yn gwbl ddi-sôn amdano ers blynnyddoedd. A dyna lle'r oedd o yng nghanol ei bapurau fel hen grëyr glas ar ei nyth. Beth yw ei oed? Mae o ei hun yn cofio iddo gyfarfod Ceiriog ar blatfform gorsaf Caersŵs. Bu farw Ceiriog ym 1887.

RYDACH CHI'N CLYWED, ATHRO, RWY'N GOBEITHIO?

Yr Athro Neil Sagam: Nid oes diffyg, fachgen, ar fy nghlyw.

Wel, mae'n syndod eich gweld chi'n dal i weithio! (Mae'n syndod, a dweud y gwir, eich gweld chi'n fyw!) Mi ddywetsoch rywdro ichi gwrdd â Ceiriog. Ydi hynny yn *llythrennol* wir?

Yr Athro: Hughes, y gorsaf-feistr tew a geiriog! Fe fuom yn dal pen rheswm am yn hir. Adroddodd yr englyn roedd ef wedi'i wneud ers tro i'w dorri ar ei garreg fedd ei hun. Cynigiais innau wella'r llinell glo. Daeth sŵn fel injan stêm o enau'r dyn. Yn lle'r llinell 'dyma ei lwch a dim lol' - a oes gwannach llinell yn ein llên? - awgrymais 'leiciai hwn ei alcohol!' 'O'ma!' meddai, gan bwyntio at y trê. Fe'i cyhuddais o ladd 'Ar Hyd y Nos' â'i eiriau siwgraidd ef yn lle'r rhai iawn!* Fe chwythodd ei chwiban yn wyllt a gweiddi 'Dos!' A mynd a wneuthum. Roedd y trê yn llawn...

Caeodd yr Athro ei lygaid gyda gwên, wrth gofio, hwyrach, am rywun ar y daith yn eistedd gyferbyn iddo ar y trê cyn y flwyddyn mil wyth wyth deg saith... Mi fentrais innau gip ar hyd ei b'rwidydd. Mae yno oriel helaeth o enwogion yr un fath â sydd ar lawer o hen aelwydydd: actoresau, beirdd a gweinidogion. Portread difyr o Lloyd George yw un; mae o yn y Stafell Ddrychau yn Versailles. A phwy sydd yno hefyd yn y llun yn edrych dros ei ysgwydd? Wel, neb llai na'r...

ATHRO! Y chi yw'r hynaf o henwyr Barddas, a braf oedd clywed gynnu ar y ffôn fod gennych neges i ddarllenwyr *Barddas*. Gair Nadoligaidd? Am beth yr hoffech sôn?

Yr Athro: Fe hoffwn sôn am 'Ystwyll', enw'r dydd sy'n dod â'r Wyl i ben... Fe ddaeth y gair o'r Lladin *stēlla*, 'seren' - honno sydd goruwch y tŷ lle mae mab bychan Mair ym Mathew (pennod 2, adnodau 9 i 10 yn y Beibl iawn); y seren wen sydd yn peri i'r Tri o'r Dwyrain draw 'lawenychu â llawenydd mawr dros ben...'

Ond sut y daeth 'ystwyll' o '*stēlla*'; meddech chi?

Yr Athro: Wel, mae'r terfyniad *-a* yn colli'n llwyr; mae *-e-* hir Ladin yn rhoi *-ŵy-* i ni; a dyna 'stwyll'. Ond wedyn (Duw a ŵyr pa bryd) dyna *y-* fach ato fel coes bren, yr '*y* brosthetig' oedd yn tueddu i lynu yn *sb-* a *sg-* a *st-* ac weithiau *n-*. Ac yn sgil y chwyldro wedi hynny yn Gymraeg - sef hel yr acen draw oddi ar y sillaf ola' i'r ola' ond un - cymerodd yr *y* goes bren 'ma maes o law holl bwysau 'Ystwyll' arni hi ei hun...

Ai dyna hi?

Yr Athro: Beth?

'Neges fach yr Athro'?

Yr Athro: Wel, ni allaf addo Nadolig gwyn!

Beth arall sydd ar ôl yn sach yr Athro?

Yr Athro: Pa seicosemanteiddiwch? Beth am hyn? Newyddion da o lawenydd mawr i'r byd: MAE SANNA' YN Y DRÔR UCHAF I DDUW O HYD!

TM, Ddydd Gŵyl Grwst, 2019

*Nodyn: Beth, tybed, oedd y 'geiriau iawn' ym meddwl yr Athro? Yr hen bennill hwn, efallai [MPRWB (1825), t. 73; cmh. HB, rhif 461]:

Nid a'i garu byth ond hynny - ar hyd y nos, A'm cydymaith efo myfi - ar hyd y nos, Rhag i hwnnw brofi'n ffalsiwr, Dwyn fy mwyd oddi ar fy nhrensiwr; Dyna'r gwaith a wnaeth e' neithiwr - ar hyd y nos!

Neu'r pennill arall llai derbyniol ar yr un dudalen yn MPRWB.



Gair o'r Gadair

Wrth i flwyddyn arall ddisgyn yn ddail tua'r tir ac wrth i 2020 roi arlliw o flagur inni, mae'n gyfle da i ddiolch wrth edrych yn ôl ac yna codi ein pennau tua'r gorwel a chyffroi wrth feddwl am y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r byd barddol Cymraeg yn para mor brysur a chyffrous ag erioed, ac mae'n fraint i ni yn nheulu Barddas gael cyfrannu rhyw fymryn tuag at hynny. Ond hefyd, fe ddathlwn y ffaith fod yna egni mawr yn mynd mewn i farddoni yn Gymraeg, o gyfres boblogaidd y Talwrn ar radio Cymru i gyhoeddiadau eraill yn Gymraeg sydd hefyd yn rhoi llwyfan i leisiau barddol cyffrous, o'r *Stamp* i *Lafar Gwlad* ac *O'r Pedwar Gwynt*, heb anghofio wedyn am weisg eraill sydd hefyd yn

cyhoeddi barddoniaeth, o Wasg Carreg Gwalch i Wasg y Bwthyn. Gyda hyn oll daw amrywiaeth a lleisiau gwahanol i'r byd barddol Cymraeg. Braf oedd cael cyfrannu yn ein ffordd fach ein hunain drwy gynnal Gŵyl Gerallt yng ngwesty'r Eryrod, Llanrwst, yn yr Hydref. Cawsom sesiynau difyr o drafod a barddoni, diolch i bawb a gyfrannodd ac a ddaeth i fwynhau'r arlwy.

Mae nosweithi byw o farddoni hefyd yn mynd o nerth i nerth gyda Bragdy'r Beirdd wedi magu adenydd ac wedi sefydlu ei hunan nid yn ung fel noson hanfodol o farddoni yn y Brifddinas, ond hefyd fel ffynhonnell o ddifyrwch barddol yn Nhre'r Cofi, a gwyh o beth yw gweld hynny. Tra bod nosweithi Cicio'r Bar, sy'n cyfuno

barddoniaeth a cherddoriaeth yn Aberystwyth dan arweiniad Eurig Salisbury a Hywel Griffiths, yn magu poblogrwydd hefyd. Ces innau'r fraint nid yn unig o berfformio yn un o nosweithi Cicio'r Bar eleni, ond hefyd y fraint o brofi cyffro perfformiadau Cywion Cranogwen, y grŵp o feirdd benywaidd sydd wedi gwneud cymaint o argraff dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a hynny mewn dau lansiad a gynhaliwyd ar gyfer fy nghyfrol newydd o gerddi, *Llafargan*. Y peth rwyf fwyaf balch ohono am lansiadau'r gyfrol honno oedd bod fy merch Sisial (7 oed) wedi cyd-ddatgan un gerdd gyda fi ar fwy nag un achlysur, ac yn bwysicach fyth, ei bod hi, o fynychu'r lansiadau hyn, wedi gallu profi'r wefr o weld barddoniaeth wych yn cael ei pherfformio gan y beirdd hyderus sy'n cario cenhadaeth Cywion Cranogwen ledled Cymru.

Gyda hynny, hoffwn ddiolch hefyd i Iestyn Tyne a gododd fater pwysig yn ei lythyr at Bwyllgor Barddas (a gyhoeddwyd yn rhifyn mis Gorffennaf o *Barddas*) sef diffyg cynrychiolaeth fenywaidd yn y cylchgrawn. Mae'n wir i ddweud fod y byd barddol ers canrifoedd wedi dioddef o'r clwyf erchyll hwnnw a elwir yn batriarchiaeth, ond mae pethau'n graddol newid. Efallai nad yw'r newidiadau wedi bod yn ddigon cyflym yng ngolwg rhai, ond ni ellir gwadu fod pethau yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Bu ymateb diddorol i'r llythyr yn rhifyn adladd yr Eisteddfod o'r cylchgrawn a gresynaf hefyd na lwyddwyd i gynnal fforwm yn trafod y mater pwysig hwn ym Mhrifwyl Llanrwst. Ond gyda gweithgor newydd gael ei sefydlu i edrych ar gydraddoldeb gyda'r bwriad o adrodd yn ôl i Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas Gerdd Dafod, edrychwn ymlaen i adeiladu ar y camau cadarnhaol a gymerwyd eisoes i geisio rhoi cymaint o gyfleon â phosib i fenywod farddoni, cynganeddu a chyfrannu at y byd barddol Cymraeg. O dan gadeiryddiaeth Mererid Hopwood, mae'r gweithgor eisoes wedi cyfarfod unwaith ac mi fydd 2020 yn flwyddyn ddifyr o ran y datblygiadau posib y gallwn eu gweld yn holl weithgareddau Barddas, o'r cylchgrawn i gyhoeddiadau Barddas i'r Ymryson yn y Babell Lân.

Wrth ddiolch hefyd hoffwn ddiolch i'n swyddogion cyflogedig am eu cyfraniad unwaith yn rhagor eleni. Diolch i Ffion Medi Lewis-Hughes, ein cydlynnydd, am weithio mor ddiwyd yn rhoi presenoldeb i Barddas ar bethau mor arallfydol ag Instagram (Beth wede sylfaenwyr y Gymdeithas Gerdd Dafod?!) ac yn trefnu stondin Barddas yn yr Eisteddfod. Diolch i Alaw Mai Edwards am ei gwaith yn y Brifwyl ar y stondin ac am gyflwyno llwyth o syniadau cyffrous i'r rhaglen gyhoeddi dros y blynyddoedd nesaf. A diolch hefyd i olygydd ein cylchgrawn, y Prifardd Twm Morys, am barhau i arwain esblygiad ein cylchgrawn gan geisio sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r byd barddol sydd ohoni yng Nghymru. Diolch i'n pwyllgorwyr diwyd, yn enwedig y Prifardd Osian Rhys Jones a ail-ddatblygodd ein gwefan ac sy'n gweithio'n galed i ddarparu Bardd y Mis, bob mis, bob mis yn ddi-ffael, i'r BBC. Ond mae'r diolch mwyaf i chi, ddarlennwyr, am barhau i'n cefnogi ac am leisio eich barn ar gyfeiriad ein Cymdeithas.

Gallwn edrych ymlaen i flwyddyn gynhyrchiol ac adeiladol yn 2020, gyda Gŵyl Gerallt yn digwydd yn yr Hydref yn Llanbed yn ardal gwaddol y Brifwyl, yn gyfle arall i deulu Barddas gael dod ynghyd wedi'r Eisteddfod. Ond cyn hynny, dau beth ichi wneud nodyn ohonynt yn y dyddiadur:

Chwefror y 1af: Ffair Lyfrau Barddas yn Neuadd Goffa Tregaron rhwng 1-5 o'r gloch. Cyfle i ganfod bargeinion a pherlau o blith ôl-gatalog Barddas.

Mehefin 20-24: Cwrs Cynganeddu Tŷ Newydd, y tiwtoriaid fydd y prifardd Mererid Hopwood ac Aneirin Karadog (dim syniad pwy yw hwnnw). Byddwn yn cyhoeddi cystadleuaeth i bobol dan 25 yn y flwyddyn newydd i ennill dau le am ddim ar y cwrs cynganeddu. Cadwch lygad mas am y manylion!

Gyda hynny, Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda!



Cwrs Cynganeddu

Tiwtoriaid: Mererid Hopwood
ac Aneirin Karadog

Dyddiad: 20- 24 Mehefin 2020

Ffi: o £250 y pen

Dewch i Dŷ Newydd i ganfod cyfrinach hen, hen grefft. Os ydych chi'n gynganeddwyr hyderus neu erioed wedi llunio'r un llinell, dyma'r cwrs i chi! Byddwn yn rhannu'n ddau grŵp ar sail profiad – un i ddechreuwyr pur a'r llall i'r rhai mwy profiadol. Yna, wedi gweithgareddau'r dydd, cawn ymgynnull fin nos yn llyfrgell chwedlonol Tŷ Newydd a pharatoi tuag at dalwrn mawreddog y noson olaf.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.tynewydd.cymru

Tŷ Newydd, Llanystumdwy, Cricieth, Gwynedd, LL52 0LW
01766 522 811 / tynewydd@llynyddiaethcymru.org





'Gabriel yn Cyfarch Mair', Syr Edward Burne-Jones, 1862

Carol: Penbleth Mair

A daeth yr Angel ati hi
â'i genadwri daer:
'Duw,' meddai, 'a'th ddewisodd di
i eni Crist, Ei aer.'
Â geiriau'r Angel lond ei chlyw,
erfyniodd hithau, Fair, ar Dduw.

A all fy nghragen wen o gnawd
ddal dy fydysawd Di?
Efô yw'r perl, myfi yw'r poer –
yn oer fy nghalon i
y dygaf y Bendigaid Un
nad yw yn fab i mi fy hun.

'Dy fab yn fab ni fynnaf fi,
ni fynnaf fi, yn faich,
Grist, fy ngoleuni, ar fy nglin,
fy Mrenin ar fy mraich,
wrth imi roddi llaeth fy mron
yn faeth i'r greadigaeth gron.

Er maint fy mraint, mae'r fraint yn frad;
sarhad i'r saer yw hyn,
a bydd fy anffyddlondeb i
yn torri'r cwlwm tyn
a luniwyd rhyngom ni ein dau
yn Nasareth, cyn ei sarhau.'

A'r Angel ni ddywedodd air,
gadawodd Fair yn fud
wrth iddi hi bendroni'n drist
ar siglo Crist mewn crud
a luniwyd iddo gan y saer
nad oedd y plentyn iddo'n aer.

ALAN LLWYD

CYHOEDDIADAU BARDDAS YN CYFLWYNO

Noson i lansio

BYD GWYNN: COFIANT T. GWYNN JONES 1871–1949

gan Alan Llwyd

Gyda Robert Rhys yn holi'r awdur, Alan Llwyd, am ei bortread newydd o'r cawr llenyddol hwn a fu farw union 70 mlynedd yn ôl.

Nos Wener 13 Rhagfyr 5.00yh


Y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

ffion@barddas.cymru

Cyhoeddiadau
Barddas   

www.barddas.cymru  CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ALAN LLWYD



Lluniaeth ysgafn ar gael.
MYNEDIAD AM DDIM
CROESO CYNNES I BAWB.

CYHOEDDIADAU BARDDAS YN CYFLWYNO

Noson i ddathlu cyhoeddi

PARCIO

Casgliad cyntaf o gerddi'r
Prifardd Tudur Hallam

Nos Fercher, 11 Rhagfyr 7.00yh

Clwb Rygbi Quins, Caerfyrddin, gydag aelodau
Ysgol Farddol Caerfyrddin yn cadw cwmni i
Tudur ac yn ei holi am y gyfrol.

ffion@barddas.cymru

Cyhoeddiadau
Barddas   

www.barddas.cymru  CYNGOR LLYFRAU CYMRU

PARCIO Cerddi Tudur Hallam



Bydd mins pei a gwin cynnes i bawb.
MYNEDIAD AM DDIM
CROESO CYNNES I CHI GYD.

Eiliad

Roedd rhaid tynnu llun o'r plant
wedi sioe'r geni...

y bugeiliaid, y doethion, Mair a Joseff
a'r angel a Herod a'r asyn,
a'r Iesu'n cael ei basio o un i'r llall.

Tu allan
roedd hi'n trio bwrw eira,
gwylias y plu yn taro wyneb
Mair drwy'r ffenest liw,
wrth i'r eiliad fy nharo i.


O'r diwedd tynnwyd rhyw fath
o lun amherffaith,
â'r Iesu ar arffed Herod,
a deallais fod modd
newid stori
mewn eiliad.

Y gŵr doeth

Mam. Dw i wedi gweld seren Bethlehem.

O'i wyllo yn fach, yn edrych i lawr
ar ei focs cardbord o aur melyn
dan y goleuadau
a'i goron yn cuddio'i lygaid,
gwn yr edrychith i fyny cyn hir
a gweld
fod na sêr eraill i'w dilyn
ac y bydd rhaid iddo yntau,
hefyd,
benderfynu.

Mari George



Ein Gwyl, ein tref ac Iolo

gyfrol dathlu daucanmlwyddiant uno'r Orsedd a'r Eisteddfod
Eisteddfod Caerfyrddin 1819

Tudur Dylan Jones

Aled Evans

Ysgol Farddol Caerfyrddin

Ein Gwyl, ein tref ac Iolo

gan Tudur Dylan Jones ac Aled Evans.

Cyhoeddwyd gan Ysgol Farddol Caerfyrddin

139 tudalen, Pris £5 (£1 p+p)

Mae hon yn gyfrol sydd yn dathlu daucanmlwyddiant uno'r Orsedd a'r Eisteddfod yn Eisteddfod Caerfyrddin ym 1819.

Dau o sefydliadau Cymraeg pwysicaf Cymru yw'r Eisteddfod a'r Orsedd. Erbyn heddiw anaml iawn y ceir un peth heb y llall, ond am gyfnod bu'r ddau yn bodoli ar wahân. Yna cafodd un athrylith y syniad o ddod â'r ddau at ei gilydd. Yng Nghaerfyrddin ym 1819 y digwyddodd hynny ar ddarn o dir y tu allan i Westy'r Llwyn Iorwg yn y dref, ac yn y llyfr hwn ceir ychydig o hanes yr eisteddfod a thref Caerfyrddin a hanes y gŵr hynod hwn, Iolo Morganwg.

Am wybodaeth bellach a phrynu copi cysyllter â Geraint Roberts ar geraintroberts@btinternet.com neu ar

07814701079

Dwy gerdd Nadoligaidd o
gyfrol newydd Eurig Salibury:
Llyfr Gwyrdd Ystwyth

Gweddi'r Nadolig

Diolchwn ni, gweddiwn – a chynnu
Mwy na channwyll, meddwn;
Â'i gwên hi fe gynheuw
Dân i Grist drwy'r byd yn grwn.

A hwnnw'n grwn fyddo'n grud – i'r baban,
Cana'r bobol hefyd
Dôn i Grist yn gôr astud,
Suo gân i Iesu i gyd.

Inni i gyd dan y goeden – dyro, Dad,
Eiriau doeth yn llawen,
Dyro gân i dŷ'r gynnen,
Ac i dŷ rhwyg dyro wên.

Gwna wên o'n digio ninnau – a thawdd di
Eleni'n calonnau,
Dyro gysuro o gasáu,
O gweryla, garolau.

Boed olau'r byd o alar – a di-lid
Ei wledydd dialgar;
Ganed Duw, gwyn yw'n daear,
Cadwn y co', Duw a'n câr.



Stres mewn preseb

Dawel nos, dawel nos ... yn ôl - y gân,
Ond gwn i'n wahanol,
Rhaid i mi'n fy ffwlbri ffôl
Amau geiriau'r hen garol.

Yr holl waliau'n gardiau i gyd – rhai'n rhannu
Rhyw hanes â'r hollfyd,
Yna i bawb yn y byd
Anfon wna' innau hefyd.

Lle bu o'r blaen haen o hud – yn gynfas
Darganfod dros wynfyd,
Heddiw'n blaen mae'r haen o hyd
Yn gynfas rhegi ynyd.

Ond roedd stres yn y preseb – onid oedd?
A dau'n eu taerineb
Nos y geni'n holi heb
Na llety na gwell ateb.

Boed i mi'n fy mhoeni maith – a dinod
Weld fod uniad perffaith,
Dolig a straffig yn ffaith
Anorffen ac amherffaith.

Dawel nos? Nid o lanhau – y gegin
A gwagio'r holl finiau,
Prynu cant o bresantau,
A mwy o gost o'u hamgáu.

Brrr! Bu'n bwrw ben bore, – nawr mae'n rhew
Mewn rhinc mawr anniben,
Minnau'n hwylio mewn halen
O sgwrio'n wyllt fy sgrin wen.

Nadolig yr hen ddigon – Nadolig
Ein dyled ddigalon,
Nadolig dig a di-dôn,
Nadolig hen oedolion...

Mair yn y silwair sala'n – dwyn ei baich,
Duw'n y byd, ie, druan,
A Joseff yntau'n effian
Heb wal glyd, heb wely glân.



Cilmeri

Yno drannoeth, yno drennydd - erys

Fel carreg yn llonydd,

Neu faen yno dradwy fydd;

Ein gwae bery'n dragywydd.

Huw Dylan Owen

Adolygiad

Llafargan

Aneirin Karadog

CYHOEDDIADAU BARDDAS, £8.95

Adolygiad - Dewi Alter

Mae barddoniaeth Gymraeg ar drothwy cyfnod cyffrous â chenhedlaeth gyfan o feirdd ifanc a dawnus yn cystadlu'n erbyn ei gilydd ac yn ennill prif wobrau'r Eisteddfod. Un o'r genhedlaeth gyffrous yw Aneirin Karadog a enillodd y Gadair yn 2016 am ei gasgliad 'Ffiniau'.

Llafargan yw ei drydedd gyfrol o farddoniaeth, ffrwyth ei ddoethuriaeth sy'n ymchwilio i'r berthynas rhwng y bardd a'i gynulleidfa. Gellid dadlau mai casgliad yr ymchwil ar sail cerddi'r gyfrol hon, i'w roi yn sarhaus o syml, yw bod perthynas agos rhwng bardd a'i gynulleidfa. Hoffwn nodi y dylid oedi cyn defnyddio term mor amwys ac eang â chynulleidfa. Tybio neu ddisgwyl cynulleidfa y mae bardd, ac mae'r cerddi yma'n tystio i Aneirin Karadog ddisgwyl cynulleidfa neilltuol. O ganlyniad, rwyn arddel y term cynulleidfa dybiedig – sef y gynulleidfa y

mae'r bardd yn ei disgwyl. Cynulleidfa dybiedig y cerddi hyn yw'r Cymry Cymraeg, ag apêl neilltuol at ei gyd-feirdd a Chymry Cymraeg Cwm Gwendraeth.

Mae pedair adran i'r gyfrol. Daw cerddi'r adran gyntaf o'r casgliad arobryn 'Ffiniau'. Enw'r ail adran yw 'Y cyfarch a'r cofio', cerddi cymunedol yn bennaf sy'n dathlu digwyddiadau nodedig ac yn galaru'r colledig. Natur bennaf yr adran nesaf, 'Tystio i Artistwaith', yw cerddi sy'n ymateb i artist, yn dathlu celfyddyd, boed yn waith llenor arobryn neu'n waith o'r Lle Celf. Mae'r ddwy adran ganol yn gwneud beth mae eu teitlau'n ei awgrymu. Yr adran olaf, 'Er gwaeth, er gwell, daw cymhelliad', yw'r adran fwyaf uchelgeisiol gyda cherddi'n ymateb i ddigwyddiadau personol, lleol a rhyngwladol â chynnwrf sylweddol dan yr wyneb. Mewn cerddi caeth a rhydd dengys Aneirin Karadog afael sicr ar farddoniaeth Gymraeg ym mhob cyfrwng.

Trywydd naturiol a disgwylidied, efallai, yw dadansoddi beth yw'r berthynas rhwng y bardd a'i gynulleidfa yn y cerddi hyn. Cadwer hynny o'r neilltu; teimlaf ei fod yn berthnasol trafod yn sylfaenol sut mae *Llafargan* yn ateb y ddau



gwestiwn canlynol: 'beth yw bardd?' a 'beth mae bardd yn ei wneud?' Fy mwriad yw ateb yr ail gwestiwn yn gyntaf oherwydd teimlaf y cawn olwg cliriach ar beth yw bardd ar sail beth mae'n ei wneud yma, gan gofio hefyd am ddyfnder diacronig y term 'bardd' a'i ystyr neilltuol yn y Gymraeg, ystyr y gŵyr Aneirin Karadog amdani.

Beth mae bardd yn ei wneud?

Yn hanesyddol mae beirdd Cymraeg â nifer o swyddogaethau cymdeithasol, fel dathlu digwyddiadau nodedig megis priodasau a chanu marwnad. Un o swyddogaethau cymdeithasol y beirdd ers talwm hefyd oedd diogelu cof y Cymry, neu cof y Brutaniaid fel y'u gelwid gynt. Cof, sef eu hymwybyddiaeth hanesyddol, sy'n estyn yn ôl at fythau hanes Prydain fel hanesion Brutus, Gomer ac Arthur. Noda lolo Morganwg ei hun mai un o ddyletswyddau bardd yw diogelu'r cof a'r gorffennol, ac nid yw'n eithriad. Cynnal y traddodiad hwn a wna Aneirin Karadog â geirfa

mnemonig wedi'i gweu trwy'r cerddi.

Diogelir a chynhelir atgofion y gynulleidfa dybiedig gan y cerddi hyn. Atgofion am bobl sydd wedi marw a oedd o bwys cyfunol fel Gwyn Thomas a geir yn y cywydd cyfoethog 'Y Pen Draw'; yn cynnal cof o gyraeddiadau beirdd ac aelodau'r gymdeithas leol a ehangach fel 'Catri-nifficeshyn' yn dathlu Catrin Dafydd yn ennill y Goron; 'Cân yr adar mân' yn dathlu ymddeoliad Joy Williams fel llywodraethwr ysgol. Caiff Cathryn Ann Rees, perthynas i'r bardd, ei chofio mewn nifer o gerddi ingol, teimladwy a grymus. Y cerddi hyn efallai yw coron y gyfrol.

Beth yw bardd?

Golyga hyn bod rhaid i fardd ymwneud â'r gynulleidfa dybiedig. Tynn Aneirin Karadog ar y traddodiad Cymraeg cynhenid o fardd sy'n rhan o gymuned, boed yn canu i noddwyr fel y cywyddwyr, neu'n canu marwnadau i bobl sy'n haeddu clod – pethau a wna'r bardd hwn ganrifoedd yn ddiweddarach. Delfryd y bardd hwn yw beirdd sy'n rhan annatod o'u cymdeithasau.

I Aneirin Karadog, felly, nid athrylith pell-i-ffwrdd oddi wrth y gymdeithas fel y beirdd rhamantaidd yw'r nod, ond yn hytrach bardd sydd wedi ymdrochi ac yng nghanol y gymdeithas fel y beirdd Cymraeg gynt. Yn sgil hyn, prif gamp y bardd yma yw tynnu ar egni'r beirdd canoloesol a gwneud eu canu'n berthnasol a chyfoes yn ei ganu newydd a thraddodiadol ef.

Nadolig modern

Rhuthro,

pawb yn ceisio gorffen popeth:
gadael y gwaith; siopa;
dewis dillad smart a chael cawod erbyn 9.

Wrth y tân,

mae oen yn rhostio'n araf ers oriau,
addewid o noson dda.

Ar y bwrdd,

lliain bwrdd coch a gwyrdd,
gwydrau siampên balch o gael mynd allan
o'u cawell pren 364-diwrnod-y-flwyddyn.
Digon o fwyd i fyddin na wŷr amdano.

10 y nos,

pawb yn eistedd wrth y bwrdd,
yn cynnwys eu cyfrinachau, ffracon a gwenau ffug.

Hanner nos,

coeden 'Dolig llawn anrhegion drud,
plant hapus gyda'u teganau
newydd sbon sy'n para diwrnod.
'Bach o chwerthin, cyfarchion, gobeithion.


Allan,

tân gwyllt ar y stryd
ac ofn cŵn a chathod yn yr awyr.

Ar diben?

Oes rhywun yn cofio am y Baban Iesu y dyddiau 'ma?

ANA CHIABRANDO REES



Tywyllwch sydd tu allan
ond yn tŷ down at y tân.

Manon Awst

Y Nadolig hwnnw

Hwnnw pan es i efo Mam i'r ffarm i brynu gŵydd.
Doedd yna ddim eira, ond dw i'n cofio'r gawod o blu.

Hwnnw pan godwyd fi i'r entrychion
efo datganiad organydd y capel o Gorws Haleliwia
yn yr ymarfer olaf cyn cyngerdd yr ysgol.
Gorfoleddu o wybod y cawn glywed y cyfan
yn ei ogoniant eto ar y noson.
Fe ges i ddolur gwddw, a rown i adre yn y gwely.
Y nodau yn fy mhen.

Hwnnw pan own i adra o'r Coleg ac yn dal i roi hosan
(orêit, cas gobennydd) wrth droed y gwely.
Mam yn dallt, a finna'n deffro i weld
Ysgyrion Gwaed Gwyn Thomas yn yr 'hosan'.

Hwnnw pan own i'n disgwyl y fenga'
ac wedi cael dyddiad geni esgor disgwyliedig,
yr wythfed ar hugain o Ragfyr.
Ganed y ddau hyna' dridiau cyn y dyddiad disgwyliedig,
felly be ydi tridiau cyn yr wythfed ar hugain?
O diar.....
Nos Ystwyll cyrhaeddodd hi.

Hwnnw pan ddeffrodd y plant am dri o'r gloch y bora
yn llawn cyffro presanta Siôn Corn
oedd newydd ymlwybro i'r gwely awr ynghynt.
Lle mae Herod pan 'dach chi isio fo?

A hwnnw pan...

...ddaeth yr eira,
...welais i Ddolg dwytha' Mam,
...lwyddais i gyflwyno cinio
heb losgi/anghofio/difetha'r un eitem o fwyd,
...fydda'i yn gyrru cyfarchion
at deulu bach newydd y mab dros y môr.

Frohe Weihnachten.

MEG ELIS



Casglu

Rwy'n dal i gasglu iorwg a chelyn
a'm calon yn tironi o hyd
wrth eu tlysau coch a'u dail glaswyrdd.

Mae gennyf eto fy hoff lecynnau –
y pant bach ger y Betws,
y berth drwchus uwchben Blaenawe.

Dod â'r gwyllt i'r tŷ yw'r nod
am wn i - y cread noeth yn fendith
ym mherfedd y gaeaf o gwmpas y tân;

nodi'r wawr y saif yr haul yn stond
rhwng llonyddwch a distawrwydd
a'r celyn yn frenin ar y byd o hyd.

Cerdd dymhorol o *Eilun*, cyfrol newydd
Frank Olding, Gwasg y Bwthyn, £8

Mae eleni gan mlynedd...

'Father Christmas' os gwelwch yn dda!

TOMOS DAFYDD

Mewn ysgrif ddifyr iawn yn rhifyn y Nadolig o *Llafar Gwlad* eleni, mae'r Archdderwydd yn nodi mai ym 1922 y gwelwyd yr enw Siôn Corn gynta' ar ddu a gwyn, a hynny yn *Cerddi Huw Pwll* J. Glyn Davies. Teitl y gân 'Pwy sy'n dŵad dros y bryn...' yn y gyfrol ydi 'Siôn Corn, Santa Claus Cymraeg'. Rhaid bod dipyn o holi wedi bod am yr enw wedyn, achos yn yr ail argraffiad ym 1923, ychwanegodd J. Glyn y nodyn yma:

The history of *Sion Corn* is unknown to me any further back than my father's dialogues with him in the [eighteen] seventies. He was a benevolent spook, living up the chimney in comfortable appartments. He had some mysterious interest in getting children off to bed early, and a more rational habit of making presents at Christmas, as a Welsh Santa Claus. I do not know whether my father found him in Edern, his mother's home, or invented him. Anyhow, *Sion Corn* has done untruthful and amiable service for two generations.

Ond efallai bod cynnig gan eraill wedi bod cyn hynny i gymreigio Santa. Dyna'r awgrym, hyd y gwelaf i, mewn ysgrif gan **Nantlais**



(1874-1959) yn Y *Cymro* union gan mlynedd yn ôl i noswyl Nadolig eleni. Meibion i Nantlais, gyda llaw, oedd Gareth a Rheinalt, y 'ddau hogyn bach' yn y penillion...

FATHER CHRISTMAS

le, Father Christmas; dyna gaiff ei enw fod! Y mae ambell frawddeg nad oes cyfieithu arni heb sathru ei hystyr. Father Christmas, ynteu, os gwelwch yn dda, ac nid dim arall. Gwir mai enw estronol sydd arno, ond na chillied neb i'w gragen oblegid hynny. Y mae calon dyner yn ymguddio dan ddieithrwrch llawer gwisg ac ysbryd rhadlon, yn cartrefu yn fynych tu cefn i'r wyneb anadnabyddus. Gwir ein bod fel Cymry wedi hen flino ar y Sais ymhongar sydd wedi bod yn torsythu ymhob twll a chornel o'n gwlad, ac yn parhau i fesur helaeth i drawsfeddiannu ffynhonnellau ein bara beunyddiol, gan hawlio, anrhydedd y meist'r iddo ei hun yn unig, a'n troi ninnau yn genedl o gaethweision. Ond na ddigia yn dragywydd, annwyl ddarllenwydd, oherwydd hyn wrth bob Sais. Dy elyn yn fynych yw dy gymwynaswr gorau. Caniateir hefyd yn fynych i ddiafol agor y drws er mwyn i'r angel gael cyfle i fynd i mewn i'r tŷ. A wyt ti wedi chwerwi wrth ffordd y Sais o drin clo dy galon, ac wedi penderfynu cau allan bob pererin mwy fydd ar lun Sais yn curo wrth dy ddrws? Ti gei golled. Y mae Father Christmas ymysg yr ymwelwyr sydd

yn curo eleni eto. Paid â diystyru ei gnoc. Agor iddo.

Yn wir, gyda llaw, nid Sais ydyw. Anodd dweud i ba wlad y perthyn. Y mae'n perthyn i bob gwlad. Ymddengys, mae'n wir, dan wahanol enwau. Fel y môr, y mae yn mabwysiadu enw y wlad y digwydda lanio arni. Môr Aberteifi, môr Caernarfon, môr y Werydd, efallai, fydd ei enw yma; ond môr India, neu Forgainc Mexico fydd ei enw draw. Felly Father Christmas. Santa Claus fydd ei enw efallai yn Fflandrys, Jean Noel yn Ffrainc, Grandfather Frost yn Russia; ond Father Christmas yn Lloegr, a Chymru erbyn hyn. Ar blant y brenin y pentyrrir enwau. Y mae ambell un yn llai na'r unig enw sydd arno; ac arall yn rhy fawr i'w gyfyngu i unrhyw enw. 'Fe ddaw ci da wrth bob enw,' meddai'r hen ddihareb. Beth bynnag, y mae Father Christmas yn ddigon mawr i gymeryd enw newydd ymhob gwlad, ac i lanw pob enw hyd yr ymylon.

Na, y mae yn fwy na Sais. Y mae rhyw argraff ar fy meddwl mai o gymdogaeth Bethlem y daeth yn wreiddiol. Efallai mai un o'r angylion hynny ydyw fu'n canu mor soriarus uwchben y preseb, ac wedi ymdroi yn fwy na'r lleill o gwmpas y crud; ac oherwydd oedi ohono yn ormodol, collodd y nefol gerbydres yn ôl i ogoniant—yn fwrriadol, mae'n bosibl. Y tebygolrwydd yw ei fod yn credu bod gweini ar dlodion heolydd bawlyd y byd yn urddasolach gorchwyl na negeseua ar hyd pelmynt dilychwin y nef. Nid wyf am ryfygu siarad yn ysgafn am yr angylion fry.

Tybïa rhai mai ei unig ddawn yw difyrru plant. Cyfaddefwn yn galonog nad oes neb mor boblogaidd heddyw gan blant pob gwlad nag ef. Ond camsynied o'r mwyaf yw tybio bod ei ddi-ddordeb yn gyfyngedig i blant. Teimla'r plant eu hunain awydd dwfn am iddo dalu ymweliad â phawb. Un o enghreffftiau hyfydd ei gymwynasau yw deffroi ysbryd anhunanol yn y rhai y cofia amdanynt. Yr oedd dau hogyn bach un tro wedi eu llwytho yn drwm â'u hanrhegion yn cofio bod eu mhamgu yn sâl yn y gwely ar adeg Nadolig. Bwriodd y ddau eu pennau at ei gilydd i wneud penillion iddi fel hyn:

Tybed bod Father Christmas
Yn dod heibio i bobl mewn oed?
Byddai'n dda ambell dro i rai henach
Na phlant glywed sŵn ei droed.

Wrth fynd ar ei deithiau eleni,
O, cofied am gleifion y dref;
A throed at mamgu ym Mryncynon,
Hen feddyg di-ffael ydyw ef.

Daeth heibio i Gareth a Rheinalt
Â sached go lew ar ei gefn.
Cawsom ffrwythau, teganau a llyfrau,
Nes llanw'n hosanau'n ddi-drefn.

Yn y nos daeth at ein gwely,
A ninnau yn cysgu yn drwm;
Cusanodd ni'n dau, a dihangodd
Yn ddistaw i fyny i'r cwm.

Mae'n siŵr o ddod heibio Bryncynon
A gwella mamgu ar ei daith,
Mae dau fach o hyd yn penlinio
I ofyn am hyn lawer gwaith.

Ond rhaid i mamgu er cael gwella
I guddio'n y gwely am dro,
A hongian ei hosan i fyny
Nes daw Father Christmas i'r fro.

Posibl bod rhyw nain arall yn gorfod treulio'r Nadolig hwn yn ei gwely. Gwn hefyd bod llawer eto â chlwyfau y rhyfel fawr heb gau yn eu hysbryd. Sylwaf hefyd fod cot ambell bregethwr yn fwy coch nag y bu, a'i fod yn treulio mwy o amser wrth siopau llyfrau ail law nag a wnaeth cyn y rhyfel, ac yn troi ymaith hefyd heb ddwyn dim oddi yno ond y llwch ar ei fysedd! Credaf y dylai pob eglwys trwy bleidlais gyhoeddus basio penderfyniad unfrydol bod y rhain oll a'u cyffelyb i osod eu hosanau i fyny eleni, pe dim ond i brotestio yn erbyn anffyddiaeth yr oes ym modolaeth Father Christmas.


*Yn boeth
o wasg
y Lolfa*



£8.99



£6.99



£9.99




£9.99



£9.99



£4.99



£14.99

yloffa.com



Llyfrau dros Gymru


FFAIR LYFRAU BARDIDAS

NEUADD GOFFA TREGARON
1 CHWFROR, 2020

Dewch i ddarganfod ambell berl a bargaen,
cyfrolau wedi eu llofnodi a chyfle i rannu
paned a sgwrs gyda rhai o feirdd Barddas!

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Ffion Medi
ffion@barddas.cymru

Cyhoeddiadau **Barddas**



COEDEN NADOLIG

Fesul darn, rho wisg arni, – dyro sêr
yn drysorau drosti.
Un bore cei ei brig hi
A golau'r sêr 'di gwelwi.

OSIAN RHYS JONES

ADFENT

Yn nhwll gaeaf, a'n hafau yn rhyw rith,
hiraethwn am olau,
disgwyl Gŵyl wna'r galon gau,
a'r eli'n ei charolau.

ANNES GLYNN

NADOLIG MAIR

Er chwerwed y camddedfryd, er y gwawd
Er ei gwarth a'i phenyd,
O'i chôl yn ddifrycheulyd
Daw'r dyw byw i euro'r byd.

FRANK OLDING

Drannoeth y Dydd Byrraf

Sut bŷm i mor esgeulus? Anodd dweud.
Roedd yma, lond fy llygaid, gynne' fach.
Roedd yma'n gwmi cu ymhob ymwneud -
Ni chofia'i na'i ffarwel, na'i ganu'n iach.
Ai cilio wnaeth yn ffrwt heb ddwedyd dim?
Ai llithro'n slei dros garreg drws y cefn?
Ai lleidr ddaeth a'i ddwgyd bant yn chwim?
Ai mynd o'i wirfodd wnaeth – ai dyna'r drefn?
Ond heddiw, wrth i'm calon suddo'n drwm,
Rwy'n taeru'i weld o bell – 'mond cil ei wên,
Synhwyro blaenau'i draed ar lawr y cwm,
Amgyffred sŵn ei gân yn newydd hen;
A dysgais hyn: mae'r golau'n torri'n rhydd,
Dim ond dros dro y collwn ninnau'r dydd.

MERERID HOPWOOD





Carol y Pebyll

Churchill Way, canol Caerdydd

Hon yw stryd aflan storïau diflas, lle mae'r cwteri'n weddi anaddas o fwd a dail crin, lle yfa'r ddinas o'r bron, ac anfon rhywrai dan gynfas eto fyth. Mae'n oer tu-fas. Mae'n glawio. Y mae heno mor wag ei chymwynas.

ARON PRITCHARD

*Daeth neges oddi wrth Aron: 'Rwy wedi dechrau cynnal dosbarthiade cynganeddu ar ran Menter Caerdydd yr hydref hwn. Mae gen i griw brwd a galluog iawn, ac fe fuon ni'n craffu ar fesur yr hir-a-thoddaid yn y dosbarth neithwr. Penllanw'r dosbarth oedd llunio hir-a-thoddaid ar y cyd! Dyma gynnig hwnnw ar gyfer y **Barddas Bach** gan fod thema Nadoligaidd iddo...*

Adfent

Yn driw, rhaid yw heddiw gyfri'r dyddiau. Er amneidio, ymlaen â'r munudau a dymchwel chwant. Rhaid prynu'r presantau gwych a fynnw, a siapwn i'r siopau! Awn yn syth, a rhyw nesáu yn y man a wna'r hosan a lenwir drwy'r oesau.

DOSBARTH CYNGANEDDU ARON

Yr Addurn Dieithr

Llusgodd y bocs drwy'r llwch, cyn ei gario'n drwsgwl i lawr yr ysgol blyg

Yr hyn oedd yn arfer bod yn nhyllau'r cof ydyn nhw... y llwch, a'u swm, a'u blas eu hunain, meddylodd.

“Tymor y trimio wedi cyrraedd eto!”

Mae hi'n drefnus, wedi “chwynu-cyn-cadw” y llynedd.

Ac mae'r diwrnod yn mynd rhagddo o angel i gelyn, yn rhuban, yn hosan, yn hardd. Yn un rhesiad o baneidiau a chant ac un o garolau.

Nes i waelod y bocs ei chyrraedd.

Meddylodd i ddechrau mai tamaid wedi dod i ffwrdd oddi ar rhywbeth arall ydoedd. Wedi'i wahanu yn y cywasgu a'r cadw.

Carw, a rhyw led-awgrym o aur ar ei gefn, fel tasa 'na rhywun wedi ei gosi â thinsel, unwaith. Carw ciami, ac un o'r rheiddiau yn rhydd.

Addurn dieithr.

Ni chofiai ei weld erioed, a hithau wedi arfer ymlwybro drwy'i hatgofion wrth fodio pob un arall, yn ddi-oed.

Y carw nad oedd yn perthyn, ond eto, roedd hi'n gyndyn o'i daflu.

Meddylodd am drwsio'r rhaidd rhydd, ond roedd 'na gyfrinach yn ei wendid, fel tasa 'na stori i'w hadrodd, meddylodd, meddylodd.

“Mi ffindia ni le i ti.”

Uwch y lle tân yn y gwyrddni? Yn yr eira gwlan cotwm? Ymwelydd yn y beudy? Wrth y drws i bawb gael ei weld? Rhwng y platiau celynnog ar y seld?

Na, doedd o ddim yn ffitio'n nunlla'n iawn.

Felly gosododd y carw i hongian wrth y teciall. A phan ddaeth y gweddill dros yr wyl i gadw trwr, i fwyta, i garu'n annwyl, bu'r teciall yn berwi sawl tro a'r carw'n destun sgwrs. Roedd ambell un yn ei gofio...

“Y carw bach aur! Wrth gwrs!”

“Cr'adur...mae 'di colli ei liw i gyd.”

Roedd o wedi perthyn, wedi bod yno erioed.

Dyna od.

Allai hi daearu na welodd hi mohono o'r blaen.

Aeth yr wyl heibio, yn un stwnsh o anrhegion, yn ganu, dathlu, digonedd.

A daeth awr y “chwynu-cyn-cadw” yn rhy fuan o lawer yn ei meddwl hi.

Ambell addurn bach, oedd wedi dod oddi ar y goeden unwaith yn ormod. Angel âg un adain, ambell seren heb y sglein. Ond roedd y carw yn rhyfedd o styfniig. Allai hi ddim meddwl am ei chwynu, roedd rhyw wreiddiau dyfnach.

Yr addurn dieithr.

Y carw ciami,

yr un lliw a'r llwch.

ANNI LLŶN



Chwilio am yr anrheg
Nadolig perffaith?

Tanysgrifiwch
i *BARDDAS*!

4 cylchgrawn y flwyddyn - £25

Cysylltwch am fwy o wybodaeth:
ffion@barddas.cymru 07795 507866